

E-lawlyfr 1

SYNIADAU HANFODOL I DDEALL SYSTEMAU GWLEIDYDDOL

Uned 2: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

BYW A CHYFRANOGI MEWN DEMOCRATIAETH

Adnodd 4

*Ymddygiad pleidleisio
yn y cyd-destun
Cymreig*

Canllaw i Athrawon

CANLLAW I ATHRAWON

Mae'r adnodd hwn ar ymddygiad pleidleisio yn y cyd-destun Cymreig yn un o wyth sy'n rhan o ***E-lawlyfr 1: Syniadau Hanfodol i Ddeall Systemau Gwleidyddol***. Mae pob adnodd wedi'u teilwra ar gyfer cynorthwyo'r sawl sy'n dysgu neu'n astudio Uned 2 ar fanyleb y cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, sef 'Byw a Chyfranogi mewn Democratiaeth'. Nid yw'r adnodd yn cwmpasu'r holl faterion yn y fanyleb ac amlinellir isod wybodaeth ynglŷn â pha agweddau ar y fanyleb sy'n cael sylw yn yr adnodd hwn.

TEITL YR ADNODD	MANYLION Y FANYLEB SY'N CYFATEB I GYNNWYS YR ADNODD
Adnodd 4: Ymddygiad pleidleisio yn y cyd-destun Cymreig	2.2.3: Ymddygiad pleidleisio – Modelau ymddygiad pleidleisio (modelau cymdeithasegol, dewis rhesymegol a falens) gan gynnwys y prif ffactorau tymor hir a thymor byr sy'n dylanwadu ar ymddygiad pleidleisio: ymgyrchoedd; ymgeiswyr; dylanwad y cyfryngau. – Rhesymau dros deyrngarwch pleidiol a dadymochri pleidiol yng Nghymru a'r DU ac i ba raddau y maent yn digwydd.

Canolbwyntir ar amlinellu'r ffyrdd mae'r llenyddiaeth brif ffrwd yn trafod ymddygiad pleidleisio yn y DU gan symud ymlaen i drafod dehongliadau o ymddygiad pleidleisio yng Nghymru'n fwy penodol. Rhoddir peth sylw hefyd i rai o'r ffactorau tymor byr sy'n effeithio ar ymddygiad pleidleisio o ran natur ymgyrchu, arweinwyr a dylanwad y cyfryngau o ran sut dehonglir mae hyn yn dylanwadu ar ymddygiad pleidleisio mewn etholiadau i'r Cynulliad yng Nghymru. Mae pwyslais felly ar dueddiadau ymddygiad pleidleisio yn y cyd-destun Cymreig.

Bwriad y canllaw i athrawon yw tynnu sylw at rai materion allweddol yn ymwneud â'r pwnc a chyfeirir at yr ymarferion yn y Llawlyfr Gwaith.

Ffyrdd o egluro ymddygiad pleidleisio yn y DU

Cyflwynir rhai o'r prif fodelau i egluro ymddygiad pleidleisio yn y DU ar ffurf tabl. Yn amlwg, mae'r gwahanol fodelau hyn yn cael eu trafod yn helaeth mewn gwerslyfrau ac felly trafodaeth gryno a geir yma er mwyn cyflwyno prif hanfodion y syniadau ar ymddygiad pleidleisio mewn etholiadau ar lefel y DU. Noder bod y syniad o wleidyddiaeth falens hefyd wedi dod i'r amlwg wrth asesu ymddygiad pleidleisio mewn etholiadau ar y lefel ddatganoledig yn y DU, fel drafodir yn achos Cymru.

Ymddygiad pleidleisio yng Nghymru

Trafodir i ddechrau'r modd mae natur ymddygiad pleidleisio yng Nghymru wedi bod yn wahanol i'r norm Prydeinig ers cyn 1999 a chyflwynir syniad 'Tri Model Cymru' a ddatblygwyd er mwyn egluro ymddygiad pleidleisio yng Nghymru. Dylid nodi bod gwaith diweddar wedi cwestiynu'r syniad hwn (e.e. Scully a Wyn Jones 2012). Fodd bynnag, y prif bwynt yw nad yw'r modelau ymddygiad pleidleisio ar draws y DU bob amser wedi bod yn gynhwysfawr er mwyn deall cyd-destunau datganoledig fel yr Alban a Chymru ble mae'n rhaid rhoi mwy o ystyriaeth i nodweddion hunaniaeth.

Yna, amlinellir ffyrdd o ddeall ymddygiad pleidleisio yng Nghymru, mewn cyd-destun lle ceir etholiadau aml-haenog, o ran etholiadau cyffredinol a rhai datganoledig neu is-wladwriaethol. Cyflwynir esboniadau o etholiadau ail radd a ddatblygwyd yn wreiddiol ar gyfer deall etholiadau megis rhai Senedd Ewrop ac ar lefel leol, a syniadau amgen o bleidleisio aml-lefel sy'n cael eu trafod hefyd ar gyfer etholiadau mewn achosion eraill ble ceir haenau gwahanol o lywodraeth a phlaid genedlaetholgar ar y lefel is-wladwriaethol (e.e. Catalonia, Gwlad y Basg, yr Alban) a gwleidyddiaeth falens. Gellir defnyddio'r syniadau hyn i ddeall ffactorau gwahanol o fewn cyd-destun un etholiad datganoledig (e.e.

bod etholiadau ail radd yn ffordd o ddeall y ganran bleidleisio, pleidleisio aml-lefel yn cynorthwyo i ddeall sut bleidleisiodd y rheiny a darodd eu pleidlais). Ar yr un pryd, mae'r syniad o wleidyddiaeth falens wedi dod yn fwy amlwg er mwyn dehongli canlyniadau etholiadau i'r Cynulliad, gan adlewyrchu tueddiadau yn yr Alban. Mae rhai sylwebwyr wedi cwestiynu a yw'r syniadaeth hon yn rhoi digon o gydnabyddiaeth i'r modd mae nodweddion hunaniaeth hefyd yn dylanwadu ar ddulliau pleidleisio.

I gloi, trafodir rhywfaint ar rai dylanwadau tymor byr ar bleidleisio mewn etholiadau i'r Cynulliad. Er bod yr ymchwil i'r maes hwn yn fwy cyfyngedig, cyfeirir at ddylanwad y cyfryngau; delwedd a chapasiti'r pleidiau i ymgyrchu yng Nghymru; ac arweinyddiaeth y pleidiau. Mae'r ail elfen yn cysylltu â phwnc ehangach sef i ba raddau mae'r pleidiau wedi addasu i wleidyddiaeth aml-haenog a datblygu delwedd mwy Gymreig wedi datganoli. Dyma nodwedd benodol o ran etholiadau yng nghyd-destun gwleidyddiaeth aml-haenog wrth i bleidiau gystadlu i lywodraethu ar lefelau gwahanol ac ymateb i bleidiau cenedlaetholgar ar y lefel is-wladwriaethol.

Llawlyfr Gwaith

Bwriad yr ymarferion yw cynnig cyfle i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o natur ymddygiad pleidleisio, yn arbennig yn y cyd-destun Cymreig. Mae cwestiwn 2 yn tynnu sylw at y gwahaniaeth yn y ganran bleidleisio mewn etholiadau i San Steffan a'r Cynulliad. Cynigir ymchwiliad dosbarth ar gyfer Cwestiwn 3 er mwyn dangos sut mae pleidleisio gwahaniaethol yn gallu digwydd yn ymarferol, e.e. bod rhai etholwyr yn penderfynu pleidleisio dros bleidiau gwahanol mewn etholiadau ar gyfer haenau gwahanol o lywodraeth. Defnyddir y cwestiynau sydd wedi eu holi mewn arolygon barn ar gyfer yr ymarfer. Cyflwynir ystod o ddata yng nghwestiwn 4 er mwyn datblygu'r gallu i ddehongli data meintiol a defnyddio canlyniadau etholiadau i adnabod tueddiadau mewn ymddygiad pleidleisio. Mae cwestiwn 5 yn gofyn am ymchwil pellach i edrych mewn mwy o fanylder ar ganlyniadau etholiadau i'r Cynulliad er mwyn galluogi pwysu a mesur effaith dylanwad gwahanol ffactorau ar y canlyniad.

ARGYMHELLION DARLLEN PELLACH**Adnoddau yn Gymraeg**

Elias, A. (2011) 'Pleidiau cenedlaetholgar lleiafrifol ac ymaddasu i ddatganoli: Astudiaeth gymharol o Blaid Cymru a'r Bloque Nacionalista Galego', *Gwerddon*, 7, 45-65.

<http://www.gwerddon.cymru/cy/rhifynnau/rhifyn7/erthygl2/>

Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol 2007 – Dadansoddiad Jonathan Bradbury o Etholiad 2007

<http://www.politicscymru.com/cy/cat1/article11/>

Etholiad 2010 – Darn gan Roger Scully ar y newid mewn tueddiadau patrymau pleidleisio

<http://www.politicscymru.com/cy/cat1/article14/>

Falens ac Anwadalwch! – Darn gan David Denver ar dwf gwleidyddiaeth falens a'r goblygiadau i'r pleidiau

<http://www.politicscymru.com/cy/cat1/article16/>

Lydia Jones & Gwilym Evans (2013) *Llyfr UG Llywodraeth a Gwleidyddiaeth* (Aberystwyth: @ebol) Pennod 2: Cyfranogiad drwy'r blwch pleidleisio.

Politics Cymru – Cyd-destun i edrych ar effaith ymgyrchoedd ar etholiadau – Dadleuon ar y teledu

Dadansoddiad o'u heffaith yn Etholiad Cyffredinol 2010 <http://www.politicscymru.com/cy/cat1/article23/>

Adnoddau yn Saesneg

Blog Roger Scully yn arbennig o dda ar y pwnc yma: <https://blogs.cardiff.ac.uk/electionsinwales/>

Elias, A. (2013) 'Policy-making Capacity of the Political Parties in Wales' yn *UK Changing Union Research Papers: A Stable, Sustainable Settlement for Wales*

<http://www.law.cardiff.ac.uk/ukcu/papers/05/Chapter%20-%20Policy%20making%20capacity%20of%20the%20political%20parties%20in%20Wales.pdf>

Elias, A. (2009) 'Plaid Cymru and the challenges of adapting to post-devolution Wales', *Contemporary Wales*, Cyf. 22, 113-140.

Scully, R., ap Gareth, Ll. (2011) *Etholiad y Cynulliad: yn Fanwl* (Cymdeithas Newid Etholiadol).

<https://www.electoral-reform.org.uk/wp-content/uploads/2017/06/Etholiad-Cynulliad-Cenedlaethol-Cymru-2011-yn-Fanwl.pdf>

Scully, R. a Wyn Jones, R. 2012. 'Still three Wales? Social location and electoral behaviour in contemporary Wales'. *Electoral Studies* 31(4), tt. 656-667.